

ADNODDAU AM DDIM

Yr Her Pam a Sut

Faint o.... gwahanol allwch chi ddod o hyd iddynt?

Mae llawer o gategoriâu gwahanol o bethau y gallech herio'r plant i ddod o hyd iddynt. Er enghraifft:

- mathau o ddeunydd, metelau, gwadau, eitemau lliw
- pethau byw (gweler cylchlythyr haf 2018)

Adnoddau

- Prennau mesur 30cm – 4 i bob grŵp o blant
- Bandiau elastig – 4 i bob grŵp o blant
- Clipfyrddau, papur a phensiliau

Adnoddau ychwanegol dewisol

- Chwyddwydrau, prennau mesur metr o hyd (neu brennau hirach eraill) er mwyn creu fframiau mwy o faint

Mae defnyddio prennau mesur yn golygu bod nifer fawr o blant/grwpiau'n gallu defnyddio ffrâm o'r un maint a siâp, sy'n golygu y gallant gymharu'r hyn maent yn ei ddarganfod mewn ffordd deg. Gellid hefyd defnyddio cylchoedd neu fath arall o ffrâm anhyblyg. Nid yw fframau cortyn neu raff cystal gan nad yw'n bosibl sicrhau eu bod yn amgylchynu arwynebedd o'r un maint bob amser.

BETH I'W WNEUD

Mae angen i bob plentyn, neu grŵp o blant, greu ffrâm o'r prennau mesur 30cm. Dylid defnyddio bandiau elastig i ddal y corneli at ei gilydd.

Rhowch yr her ganlynol i'r plant "Faint o [RHOWCH GATEGORI O'CH DEWIS] gwahanol allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?"

Dywedwch wrth y plant i:


- ddewis man yn yr ysgol – y tu mewn neu yn yr awyr agored – a rhoi'r ffrâm i lawr arno
- nodi faint o bethau gwahanol yn y categori a roddwyd sydd i'w gweld y tu mewn i'r ffrâm
- cofnodi'r hyn a welsant

Ei throi hi'n gystadleuaeth ysgol gyfan

Penderfynwch ar gategori i'r ysgol gyfan (neu gyfnod allweddol, neu grŵp blwyddyn). Mae pob dosbarth yn cyflawni'r her ac yna'n cyflwyno ffotograff o'u ffrâm yn y man lle roedd y dosbarth wedi dod o hyd i'r nifer fwyaf o bethau yn y categori penodol. Dylai pob ffotograff fod â rhestr o'r holl bethau a ddarganfuwyd yn y ffrâm. Crynhowch y lluniau yn sioe sleidiau i'r ysgol gyfan ei gwyllo... cyn datgelu'r dosbarth/ cyfnod allweddol / grŵp blwyddyn a enillodd.

Bwriedir i'r her 'Pam a Sut' fod yn rhywbeth y bydd llawer o athrawon yn rhoi cynnig arno yn yr ystafell athrawon.

Mae Her Pam a Sut y rhifyn hwn yn fersiwn o'r un a awgrymwyd gennym yng nghylchlythyr haf 2018. Bydd yn annog y plant i edrych ar eu hamgylchfyd gyda mwy o bwrpas a chywirdeb. Gellir ei gynnal gyda grwpiau bach, un dosbarth neu fel cystadleuaeth ysgol gyfan.



- dewis man arall i osod y ffrâm ac ail-wneud y gweithgaredd

e.e. rhoi'r ffrâm i lawr ar ddesg – y deunyddiau a welir ynddo yw: pren, plastig, metel, ffabrig, rwber, papur. Efallai y bydd plant hŷn hefyd yn dweud graffit (neu ganol pensil), paent (ar y pensiliau), inc (sgwariau ar y papur) ac efallai y byddant eisiau rhoi enwau penodol ar fetel y siswrn, pren y ddesg a ffabrigau'r cas pensiliau.

Pwyntiau i'w nodi:

- Dylid annog y plant i edrych y tu mewn i'r ffrâm cyfan ac i ddefnyddio chwyddwydrau
- Dylai'r plant edrych am faint o bethau gwahanol allan nhw eu gweld – dim ond unwaith maen nhw'n cael cyfrif pob math
- Gallai'r plant dynnu ffotograffau o'u ffrâm mewn gwahanol fannau, ac anodi arnynt yr hyn y daethant o hyd iddo pan fyddant nôl yn yr ystafell ddosbarth
- Mae'r her hon yn arbennig o addas i blant iau. Er mwyn ei gwneud yn fwy heriol i blant hŷn, cyflwynwch elfennau ychwanegol e.e. os mai deunyddiau yw'r categori, ar gyfer pob deunydd maen nhw'n dod o hyd iddo, gofynnwch i'r plant restru tri pheth arall sydd wedi'u gwneud o'r un deunydd, a dweud pam, yn eu tyb nhw, y caiff y deunydd ei ddefnyddio / disgrifio ei briodweddau.
- Efallai yr hoffai'r plant wybod bod gwyddonwyr yn defnyddio ffrâm tebyg ag ochrau maint 1m er mwyn nodi manau ar hap i wneud arolwg ohonynt. Cwadrat yw ei enw gwyddonol.